BBS

Birds Science People
BTO

British Trust for Ornithology
The Nunnery
Thetford
Norfolk IP24 2PU
T +44 (0)1842 750050
Ebost: **bbs@bto.org**

**I bwy bynnag a fynno wybod**

**Gweithiwr maes gwirfoddol sy'n cymryd rhan yn yr Arolwg Adar sy'n Nythu yw deiliad y llythyr hwn. Trefnir yr arolwg hwn gan Ymddiriedolaeth Adareg Prydain (BTO) ac fe'i cefnogir gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB).**

**Mae gan y cynllun dri nod cyffredinol:**

- Darparu gwybodaeth am newidiadau o flwyddyn i flwyddyn, ac yn y tymor hir, ym mhoblogaethau adar.
- Hyrwyddo gwell dealltwriaeth o fioleg poblogaethau adar.
- Hyrwyddo cadwraeth adar trwy waith nifer fawr o arolygwyr amatur.

Dechreuodd y cynllun ym 1994, ac mae tua 4,000 o sgwariau 1-km sydd wedi'u dewis ar hap yn cael eu harolygu ledled y DU. Mae deiliad y llythyr hwn wedi gwirfoddoli i gymryd rhan yn y prosiect hwn, ac wedi cael un o'r sgwariau ar hap gyda'r cais iddynt geisio caniatâd i groesi tir preifat er mwyn gwneud y gwaith maes.

Mae'r gwaith ei hun yn cynnwys uchafswm o dri ymweliad byr yn gynnar yn y bore bob blwyddyn. Defnyddir y gyntaf i gofnodi'r cynefin a sefydlu llwybr yr arolwg (a ddylai, yn ddelfrydol, gynnwys dwy linell gyfochrog, pob un yn 1 km o hyd). Bydd yr ail a'r trydydd ymweliad â sgwâr yn cael eu defnyddio i gofnodi'r adar y mae'r arolygwr yn eu gweld a'u clywed wrth iddynt gerdded llwybr yr arolwg ar gyflymder cyson. Dylai'r holl waith arolygu ddigwydd yn ystod ymweliadau ben bore rhwng diwedd mis Mawrth a diwedd mis Mehefin. Trwy ailadrodd y gwaith hwn yn flynyddol yn yr un sgwâr, bydd modd creu darlun o sut mae poblogaethau cenedlaethol adar yn newid dros amser.

Byddem yn gwerthfawrogi'n fawr unrhyw gymorth y gallwch ei roi i'r deiliad ynghylch caniatâd mynediad i dir preifat. Mae croeso i chi gysylltu â ni os hoffech ragor o wybodaeth.

James Heywood, **Trefnydd Cenedlaethol BBS**

David Noble, **BTO Prif Ecolegydd, Monitro**

**Ebost:** bbs@bto.org
**Gwefan BBS:** www.bto.org/bbs

www.bto.org
Elusen Gofrestredig Rhif 216652 (Cymru a Lloegr) SC039193 ( Yr Alban)
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant RHIF. 357284 (Cymru a Lloegr)
Noddwr Ei Uchelder Brenhinol Dug Caergrawnt, KG, KT

V2.0 09/04/2024